



Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020

Canllawiau Arferion Gorau

Paratoi i Derfynu Prosiect

Fersiwn: 1

Dyddiad: Mehefin 2020

Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020

Paratoi i Derfynu Prosiect: Canllawiau Arferion Gorau

1. Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r meysydd y dylid eu hystyried wrth derfynu prosiect a'r arferion gorau y dylid eu cadw mewn cof wrth ddod â'ch prosiect i ben.

Rhaid i'r terfynu ddigwydd mewn cydweithrediad â'ch Swyddog Gweithrediadau Iwerddon Cymru, a fydd yn eich cyngori ynghylch y gofynion craidd ar gyfer terfynu eich prosiect. Mae mwy o ganllawiau a ffynonellau gwybodaeth i'w cael ar wefan Iwerddon Cymru, a hefyd gallwch gael cymorth gan Daliadau WEFO.

2. Cylch Oes y Prosiect – Terfynu

Mae terfynu prosiect yn un o'r camau allweddol yng nghylch oes prosiectau ac mae angen ei ystyried a chynllunio ar ei gyfer yn ofalus.

Mae'n bwysig iawn dechrau ar y broses derfynu mewn da bryd. Bydd rheolwyr prosiectau a phartneriaid eraill wedi bod yn rheoli risgiau'r prosiect trwy gydol y cyfnod. Un risg fawr tua diwedd oes y prosiect yw methu â gweithredu a defnyddio strategaeth ymadael y prosiect yn gywir. Gall hyn arwain at broses derfynu a fydd yn para'n rhy hir e.e. gan fod gwybodaeth annigonol yn cael ei chyflwyno gan gyd-noddwyr y prosiect neu'r darparwyr / contractwyr, gan nad yw'r gwaith cyflawni'n dod i ben ar yr adeg iawn, oherwydd methiant i gyflwyno'r hawliad ariannol terfynol yn unol â'r amserlenni gofynnol, neu gan na neilltuwyd digon o amser i wneud y gwerthusiad terfynol ac ati.

Dylai'r holl waith cyflawni fod wedi dod i ben cyn dyddiad gorffen y prosiect a dylai cynlluniau ar gyfer y gwaith hwn fod wedi'u cynnwys yn y strategaeth ymadael. Hefyd, dylid bod wedi casglu'r data (ariannol a dangosol) ar gyfer yr hawliad terfynol. Bydd y gwaith o derfynu contractau staff neu ymadawiadau staff o bob rhan o'r prosiect wedi dechrau wrth i ddyddiad gorffen y prosiect agosáu, ac felly mae'n hollbwysig cadw staff allweddol fel y gallant wneud y tasgau angenrheidiol i derfynu'r prosiect a rhyw gymaint o waith yn ymwneud â therfynu'r prosiect wedi i'r dyddiad terfynu fynd heibio e.e. bydd angen i staff fod ar gael i gyflwyno'r hawliad terfynol os bydd hynny'n digwydd ar ôl yr union ddyddiad y daw'r prosiect i ben.

Ffactor pwysig arall i'w ystyried wrth agosáu at adeg terfynu prosiect yw y gall pob prosiect a ariennir trwy Gronfeydd Strwythurol yr UE gael ei ddewis yn y dyfodol ar gyfer ymweliad archwilio gan y Comisiwn Ewropeaidd neu ymweliad gan Dîm Archwilio Llywodraeth Cymru / Llywodraeth Iwerddon. Bydd eich prosiect wedi cael ei archwilio o leiaf unwaith yn barod a dylech fod â pheth profiad o'r broses, felly cofiwch gadw hyn mewn cof pan fyddwch yn derfynu'r prosiect.

3. Cydymffurfio ag Amodau'r Grant

Amodau Safonol

Byddwch wedi cymryd camau i sicrhau eich bod yn cydymffurfio ag amodau'r grant a nodir yn y Llythyr Cynnig Grant (ac unrhyw lythyrau Amrywio Grant a oedd yn diwygio'r cynnig) trwy gydol oes y prosiect, gan mai dyna'r cytundeb contractiol rhwng y Noddwr Arweiniol a WEFO. Wrth i chi agosáu at ddyddiad gorffen a dyddiad terfynu'r prosiect, dylech wirio unwaith yn rhagor fod yr holl dystiolaeth a'r holl gamau perthnasol wedi'u pennu, wedi'u rhoi ar waith neu wrthi'n cael eu gwneud er mwyn sicrhau hyn. Os methir â chydymffurfio â'r holl amodau yn y Llythyr Cynnig Grant – y "Cytundeb" – efallai y gwrthodir talu canran o'r grant pan gaiff y prosiect ei derfynu, neu efallai y cymerir y grant yn ôl oddi ar y noddwr arweiniol, hyd yn oed.

Byddwch wedi sicrhau hefyd fod y gwariant a'r gweithgareddau i gyd yn gymwys. Ar ddiwedd y prosiect, byddai'n ddoeth edrych drachefn ar Reolau Cymhwysra Cymru Iwerddon a'r canllawiau eraill sydd wedi'u cyhoeddi ar wefan Iwerddon Cymru ynglŷn â monitro prosiectau a materion ariannol, rhag ofn bod unrhyw anghysondebau i'w cael. Os deuir o hyd i rywbeth, dylech siarad â'ch Swyddog Gweithrediadau Iwerddon Cymru, oherwydd fe allai hyn effeithio ar eich hawliad terfynol a'ch adroddiadau ar y canlyniadau dangosol.

Amodau Arbennig

Mae angen i bob prosiect sicrhau ei fod wedi cydymffurfio ag unrhyw amodau grant arbennig a gynhwysir yn y Llythyr Cynnig Grant, bod y Gydysgrifenyddiaeth wedi llofnodi i gadarnhau hynny, a bod y dystiolaeth berthnasol yn cael ei chadw fel rhan o gofnodion y prosiect.

4. Agweddau Technegol ar

Derfynu Prosiect

Archif Prosiect

Dylech ystyried creu archif ar gyfer eich prosiect. Dylai'r archif gynnwys gwybodaeth am ble mae'r cofnodion a'r dogfennau allweddol ar gyfer gwaith eich prosiect yn cael eu cadw. Os cedwir cofnodion mewn gwahanol gyfryngau ac mewn lleoliadau eraill, dylai'r archif nodi sut gellir cael gafael ar y rhain a ble bydd y cofnodion ar gael i'w harchwilio yn y dyfodol. Dylai archif y prosiect gynnwys eich Cynllun Busnes a'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Gydysgrifenyddiaeth i ategu eich cynllun busnes, y Llythyr Cynnig Grant ac unrhyw amrywiadau, ynghyd ag unrhyw lythyrau yn nodi penderfyniadau'r Gydysgrifenyddiaeth, yn arbennig felly y penderfyniadau sy'n deillio o ymholiadau ynghylch cymhwysra.

Dylai'r archif gynnwys tystysgrifau cwblhau h.y. cofnodion caffael, cofnodion ariannol, taflenni amser ac ati.

Dylai gynnwys cofrestr asedau / stocrestr yn nodi manylion yr asedau a brynwyd, a'u lleoliad, ar gyfer archwiliadau ac ymweliadau monitro yn y dyfodol. Bydd angen copi o'r rhestr hon fel rhan o'r broses derfynu. Dylai rheolwyr prosiect wneud yn siŵr fod y gofrestr asedau'n gyfredol a'i bod yn cynnwys yr holl asedau a brynwyd trwy ddefnyddio cronfeydd yr UE. Rhaid i'r stocrestr / cofrestr gynnwys holl asedau'r prosiect, hyd yn oed y rhai sydd wedi'u lleoli o fewn / caffael gan sefydliad partner.

“Dylai sefydliadau sydd â pholisi o gofnodi eitemau gwerth is yn eu cofrestru asedau ddilyn eu trothwy eu hunain.”

Stocrestr Asedau

Mae Noddwr y Prosiect yn gyfrifol am greu a chynnal stocrestr o'r holl Asedau a brynwyd trwy ddefnyddio cronfeydd yr UE, pa un a ydynt yn eiddo i Noddwr y Prosiect neu i drydydd parti.

Dylai'r stocrestr ddangos:

- dyddiad prynu'r Ased;
- disgrifiad o'r Ased;
- y pris a dalwyd heb gyfrif y TAW y gellir ei adennill;
- swm y Grant a dalwyd;
- lleoliad y gweithredoedd eiddo;
- rhifau cyfresol neu rifau adnabod;
- lleoliad yr Ased;
- y dyddiad gwaredu;
- elw'r gwerthiant heb gyfrif TAW.

Rheoli a chadw dogfennau

Mae noddwyr prosiectau'n gyfrifol am gadw cofnodion digonol (TG, papur, cyfryngau cofnodi eraill) er mwyn cael cofnod llawn o'r prosiect, gan gynnwys cofnodion ariannol a chyfrifyddu. Maent yn gyfrifol hefyd am sicrhau bod y rhain ar gael i'r Gydysgrifenyddiaeth ac i'r archwilwyr, fel bo'r angen. Os na chyflwynir dogfennau ategol yn ymwneud â gweithgareddau Cronfeydd Strwythurol, bydd y cyllid grant yn cael ei gymryd yn ôl. Mae hyn yn golygu y dylid cadw'r dogfennau **tan 2026 o leiaf, ond rhaid i noddwr y prosiect gadw'r holl ddogfennau hyd nes y bydd WFO yn rhoi gwybod nad oes angen eu cadw mwyach.**

Polisi Rheoli Cofnodion

Rhaid i'ch prosiect fod â pholisi rheoli dogfennau. Dylai'r polisi hwn gynnwys cyfarwyddiadau ar storio dogfennau, dylai nodi tan ba ddyddiad mae'n rhaid cadw dogfennau, a dylai gynnwys manylion am unrhyw brotocolau ar gyfer rheoli data sensitif. Hefyd, dylai gynnwys manylion am lleoliad dogfennau, yn enwedig os yw'r prosiect wedi caffael gwasanaethau a bod rhywun heblaw'r noddwr arweiniol yn cadw'r cofnodion. Os caiff y cofnodion eu cadw'n electronig, dylent fod ar gael ar ffurf gwbl adferadwy yn ystod y cyfnod cadw a

nodir yn y canllawiau. Dylai'r polisi hwn hefyd fod yn rhan o archif y prosiect.

Mae'n bwysig cofio mai'r Noddwr Arweiniol sy'n gyfrifol am gadw holl gofnodion y prosiect, ac felly dylai'r polisi gynnwys manylion hefyd am y systemau sydd ar waith er mwyn cael gafael ar y cofnodion/dogfennau hynny gan gontractwyr trydydd parti mewn amgylchiadau lle na allant gadw'r cofnodion/dogfennau. Os na all y noddwr arweiniol gael sicrwydd o hyn gan bartion eraill, rhaid i noddwr y prosiect adalw'r holl gofnodion fel y gellir eu cadw, a hefyd at ddibenion archwilio. Mae hyn yn dal i fod yn berthnasol ar ôl i'r prosiect ddod i ben, tan ddiwedd y cyfnod cadw ar gyfer Rhaglenni 2014-2020 neu hyd nes y bydd WEF0/y Gydysgrifenyddiaeth yn rhoi gwybod i chi.

Cofnodion rheoli prosiect

Dylid cynnal adolygiad terfynol o'ch cofnodion rheoli prosiect a dylai'r rhain fod yn rhan o archif eich prosiect. Yn ogystal â chynnwys tystiolaeth i ddangos sut cafodd y prosiect ei reoli (cofnodion cyfarfodydd, gwybodaeth am lywodraethu'r prosiect), dylai'r archif gynnwys y cofnodion ariannol, megis anfonebau gwreiddiol a chofnodion ariannol electronig, fel tystiolaeth o'ch gweithgareddau a'ch gwariant.

Dylai'r archif gynnwys tystiolaeth hefyd o'r modd y cafodd y prosiect ei fonitro, megis:

- trywyddau archwilio llawn o'r costau gwirioneddol
- arian cyfatebol
- cyfraniadau cyfatebol mewn nwyddau
- recriwtio staff a swydd-ddisgrifiadau
- penodiadau eraill
- taflenni amser a thystiolaeth o'r cyfraddau tâl a ddefnyddiwyd (naill ai copi o gyfraddau Iwerddon Cymru neu, os defnyddiwyd cyfraddau eraill y cytunwyd arnynt, dylid ategu'r rhain trwy gynnwys y cydsyniad a gafwyd gan WEF0/y Gydysgrifenyddiaeth i'w defnyddio a thaliad BACS y cyflogwr, ynghyd â chyfriflen banc i ategu'r trafodiad hwn)
- hefyd, dylid cadw copi o unrhyw fethodoleg dosrannu ar gyfer cyfraddau gorbenion a chydsyniad WEF0/y Gydysgrifenyddiaeth i'r cyfraddau hyn gael eu defnyddio.

Cymorth Gwladwriaethol

Ymhellach, mae angen i noddwyr prosiectau ystyried unrhyw ofynion ychwanegol (gan gynnwys cyfnodau estynedig ar gyfer cadw dogfennau / cofnodion) a all fod yn ofynnol ar gyfer prosiectau lle ceir elfen o gymorth gwladwriaethol. Bydd gofyn i chi gadw cofnodion am y cyfnod sy'n ofynnol dan y rhaglen; ond hefyd, gan fod y cyfnod ar gyfer cadw cofnodion lle cafwyd cymorth gwladwriaethol fel rheol yn **10 mlynedd** o'r dyddiad pan roddwyd y cymorth unigol olaf, gallai'r cyfnod mewn achos o'r fath ymestyn **y tu hwnt** i'r cyfnod sy'n berthnasol fel rheol i brosiectau (tair blynedd ar ôl i'r Rhaglen Weithredol derfynu'n ffurfiol), ac felly rhaid i gofnodion yn ymwneud â chymorth gael eu cadw hyd nes i'r cyfnod cadw cofnodion ar gyfer Cymorth Gwladwriaethol ddod i ben.

Caffael

Dylech sicrhau bod eich holl gontractau wedi cael eu cwblhau a'u hychwanegu at y dudalen berthnasol ar Wasanaeth Ar-lein WEFO, a dylech nodi eu bod bellach wedi dod i ben. Dylai noddwyr prosiectau sicrhau bod yr holl gofnodion sy'n ymwneud â chaffael ar gael yn ystod y cyfnod cadw a nodir gan WEFO; a phan fo trydydd parti yn cadw cofnodion (gwasanaeth a gontractiwyd), dylai'r Noddwr Arweiniol ei fodloni'i hun y bydd y cofnodion hynny ar gael fel y gall archwilwyr graffu arnynt yn ystod yr un cyfnod. Dylai hyn gynnwys cofnodion yn ymwneud â'r gweithgareddau a'r gwaith monitro.

Cyhoeddusrwydd / marchnata

Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn cydymffurfio â gofynion cyhoeddusrwydd yr UE (Gwybodaeth a Chyfarwyddiadau Cyhoeddusrwydd <https://irelandwales.eu/sites/default/files/2018-04/Publicising%20your%20project%202014-2020%20IW%20%28translation%29%232%20%28Cymraeg%29.pdf>) trwy gadw tystiolaeth o'r camau cyhoeddusrwydd a gymerwyd mewn perthynas â'ch prosiect. Bydd yn ofynnol i chi gyflwyno tystiolaeth i brofi eich bod wedi cydymffurfio trwy osod plac yn nerbynfa'r adeilad neu mewn lle amlwg sy'n berthnasol i weithgareddau'r prosiect.

Ymhellach, dylid cynnwys tystiolaeth yn eich archif ynglŷn â chyhoeddusrwydd arall yn ymwneud â'r prosiect, a dylai arddangos logo Iwerddon Cymru e.e. datganiadau i'r wasg, cynnwys digidol/gwefannau a chopïau o gyhoeddiadau marchnata (taflenni, cylchlythyrau, deunyddiau hyrwyddo, adroddiadau rhanddeiliaid ar gyfer cynulleidfaoedd heblaw'r Gydysgrifenyddiaeth ac ati).

O dro i dro, efallai y gellir defnyddio eich prosiect fel enghraifft o arfer da neu arfer gorau ar gyfer ymweliadau gan Weinidogion Cymru neu Iwerddon, y Comisiwn Ewropeaidd neu Aelod-wladwriaethau eraill. Os dewisir eich prosiect, bydd y Gydysgrifenyddiaeth yn rhoi gwybod i'ch sefydliad fel y gallwch baratoi ar gyfer yr ymweliadau hyn.

Yn ystod y misoedd olaf, mae'n debyg y bydd eich prosiect yn cynnal digwyddiadau er mwyn dathlu'r hyn a gyflawnwyd, rhannu adroddiadau, hysbysebu'r gwefannau ac ati, felly byddai o fudd i chi gysylltu â'r Gydysgrifenyddiaeth er mwyn rhoi gwybod iddi am unrhyw ddigwyddiadau mawr neu hollbwysig.

5. Terfynu ariannol

Yr Hawliad Terfynol

Bydd WEFO yn cadw 10% o Grant y Cronfeydd Strwythurol (oni nodir yn wahanol yn y Proffil Cyflawni) hyd nes y caiff y Prosiect ei gwblhau'n foddhaol yng ngolwg WEFO a hyd nes y bydd WEFO yn derbyn ffurflen hawlio derfynol foddhaol. Pan fydd prosiect yn tanwario, bydd y grant yn cael ei leihau yn unol â hynny a chedwir 10% yn ôl ar sail swm y grant a

ail-gyfrifir.

Wrth lenwi'r hawliad terfynol, dylid addasu'r golofn 'cyfanswm a ragwelir' yn yr hawliad, pe bai angen, er mwyn sicrhau ei bod yn cyfateb i'r holl ffigurau terfynol a ddatganwyd ar gyfer Gwariant, Incwm a Dangosyddion.

Os ceir unrhyw dangyflawni mewn perthynas â dangosyddion y prosiect, rhaid ymdrin â'r rhain a chynnig eglurhad perthnasol y cytunir arno gyda'ch Swyddog Gweithrediadau Iwerddon Cymru.

Rhaid cyflwyno ffurflen hawlio derfynol o fewn tair wythnos i ddiwedd y cyfnod hawlio terfynol.

Yr unig wariant y gellir ei hawlio yw gwariant a ysgwyddwyd ac a dalwyd yn barod. Diffinnir "talwyd" fel siec a newidiwyd neu drafodiad talu a gliriwyd o gyfrif banc y sefydliad.

Ni fydd gwariant a ddigwydd ar ôl y dyddiad cwblhau a gymeradwywyd yn gymwys.

Sylwer, os gwelwch yn dda, fod yn rhaid ysgwyddo a thalu pob gwariant cyn diwedd cyfnod y rhaglen (h.y. erbyn 31 Rhagfyr 2023).

Dyma'r rheolau sy'n berthnasol i gyfrifo sut i dalu hawliadau terfynol:

- Telir pob hawliad terfynol ar sail "angen"; golyga hyn y bydd cyfanswm y grant sy'n daladwy yn cael ei leihau pe bai unrhyw newid yn y pecyn ariannu cyffredinol yn arwain at leihad yn yr angen am grant.
- Bydd cyfanswm y grant sy'n daladwy yn cael ei *leihau* er mwyn adlewyrchu unrhyw danwariant mewn perthynas â'r Prosiect.
- Os bydd yr incwm yn annigonol, bydd angen i Noddwr y Prosiect ddarparu arian ychwanegol gan ddefnyddio ei adnoddau ei hun.
- Rhaid cyflwyno / cadarnhau'r holl fanylion am yr incwm cyn y telir hawliadau grant terfynol.
- Cyfanswm y grant Cyfalaf a / neu Refeniw y cytunwyd arno yn y Proffil Cyflawni diweddaraf fydd uchafswm y grant a delir, hyd yn oed os ceir cynnydd yng nghyfanswm y Costau Cymwys (Cyfalaf a / neu Refeniw).

Adroddiad cynnydd yr hawliad terfynol am daliad

Dylai'r adroddiad cynnydd a gyflwynir gyda'r hawliad terfynol am daliad nodi manylion am gynnydd y prosiect a'r hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn ar gyfer chwarter terfynol y prosiect. Dylai'r noddwyr sicrhau eu bod yn ymateb ac yn rhoi sylw yn yr adroddiad cynnydd terfynol hwn i'r holl gamau sydd heb eu cymryd ac a godwyd gan WEF0/y Gydysgrifenyddiaeth.

6. Monitro a Gwerthuso'r Prosiect

Monitro'r Prosiect a Dangosyddion Gwerthuso'r Prosiect

Wrth i noddwyr prosiectau adrodd ar eu canlyniadau terfynol yn erbyn y dangosyddion a ddewiswyd ar gyfer eu prosiect, rhaid iddynt sicrhau bod y canlyniadau hyn yn fanwl gywir, bod tystiolaeth briodol yn eu hategu, a'u bod wedi bodloni'r Diffiniadau Dangosyddion perthnasol ac yn parhau i wneud hynny. Felly, mae'n bwysig amseru'r gwaith o derfynu'r prosiect fel y gellir sicrhau bod modd cofnodi'r holl ganlyniadau perthnasol a'u darparu mewn pryd ar gyfer cyflwyno'r hawliad terfynol a'r Adroddiad Cynnydd ar yr hawliad terfynol am daliad.

Gwerthuso

Dylai prosiectau fod wedi amlinellu a chytuno ar y cynigion gwerthuso gyda'r Gydysgrifenyddiaeth/WEFO yn ystod oes y prosiect; fel arfer, bydd hyn ar ffurf cynllun monitro a gwerthuso. Ym mhob achos rhaid cael gwerthusiad terfynol, ac ni fydd y grant sy'n weddill ar gyfer y prosiect yn cael ei ryddhau hyd nes y derbynnir y ddogfen hon a hyd nes i WEFO/y Gydysgrifenyddiaeth ei llofnodi. Dylai prosiectau sicrhau eu bod yn gwneud cynlluniau addas i ofalu na fydd yna oedi dianghenraid cyn y telir y swm sy'n weddill. Bydd y swm hwn yn cael ei ryddhau wedi i'r hawliad terfynol gael ei awdurdodi, ar yr amod bod holl bartïon WEFO yn fodlon a bod pob agwedd ar ddarparu a chyflawni'r prosiect yn foddhaol.

Felly, mae angen i'r noddwyr ystyried yn ofalus y dyddiad y bydd eu Gwerthusiad Terfynol yn cael ei gyflwyno, oherwydd os cyflwynir dogfennau ar ôl dyddiad gorffen y prosiect ni fydd y prosiect yn cau o safbwynt WEFO/y Gydysgrifenyddiaeth – gweler uchod. Mae'n bwysig neilltuo digon o amser ar ddiwedd y gweithrediad i gwblhau gwerthusiad a chynnwys y set olaf o ffigurau dangosyddion.

Adroddiad Terfynol y Prosiect

Fel rhan o'r gwaith terfynu, bydd angen i chi gyflwyno adroddiad terfynol byr ar y prosiect. Ni ddylai'r adroddiad hwn ailadrodd cynnwys adroddiad y Gwerthusiad Terfynol. Ni ddylai fod yn fwy na dwy dudalen a dylid defnyddio'r templed sydd ynghlwm ar gyfer cyflwyno gwybodaeth i WEFO fel rhan o'r broses derfynu. Dylai'r adroddiad roi braslun o'r hyn a gyflawnodd y prosiect yn erbyn ei nodau a'i amcanion – gan gynnwys buddion ehangach ac eglurhad o unrhyw newid mewn ffocws, eglurhad o unrhyw amrywiant yn erbyn y targedau, unrhyw wersi a ddysgwyd, unrhyw ddeilliannau eraill megis modelau ar gyfer arferion gorau, ac unrhyw allbynnau/canlyniadau ychwanegol na ellir eu cofnodi yn y Gwerthusiad Terfynol.

7. Gweithgareddau a Gwaith Monitro ar ôl Terfynu'r Prosiect

Mae'n debygol y bydd rhai gweithgareddau i'w gwneud ar ôl dyddiad gorffen y prosiect, ond bydd y Gydysgrifenyddiaeth yn gweithio gyda chi er mwyn lleihau'r rhain cyn belled ag y bo modd, oherwydd bydd cost ynghlwm wrthynt e.e. cyflogau staff, y bydd yn rhaid i'r noddwr arweiniol a / neu eraill a chwaraeodd ran wrth gyflawni'r prosiect, eu talu.

Ar ddiwedd y prosiect, bydd y Gydysgrifenyddiaeth yn rhoi gwybod i chi am

unrhyw ofynion monitro wedi i'ch prosiect ddod i ben a beth yw'r broses ar gyfer cyflwyno gwybodaeth. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd fel rhan o'r cyfarfod Adolygu Terfynu Prosiect, ond mae'n debygol hefyd y bydd wedi cael ei drafod yn y 12 mis cyn y dyddiad y daw'r prosiect i ben. Bydd angen i chi sicrhau bod gan y sefydliad adnoddau a gwybodaeth briodol er mwyn helpu gydag unrhyw weithgareddau ar ôl i'r prosiect gael ei derfynu, a bydd angen trefnu mynediad priodol at Wasanaeth Ar-lein WEFO fel y gellir cyflwyno'r wybodaeth hon.

Hynny yw, trwy eich Swyddog Gweithrediadau Iwerddon Cymru bydd angen i chi roi manylion i WEFO am unrhyw swyddogion cyswllt a fydd ar gael i brosesu'r hawliad terfynol ac ymdrin ag unrhyw ymholiadau neu ofynion a wneir gan WEFO/y Gydysgrifenyddiaeth y mae'n rhaid i'r noddwr weithredu ar eu sail i sicrhau bod y prosiect yn cael ei derfynu. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi barhau i fod ar gael a rhaid rhoi gwybod i'r Gydysgrifenyddiaeth am unrhyw newidiadau yng nghontractau'r prosiect, pa un a yw'r rhain wedi'u cofrestru gyda Gwasanaeth Ar-lein WEFO ai peidio, fel y gallwn gywiro ein systemau.

Dyma rai meysydd y bydd WEFO/y Gydysgrifenyddiaeth yn eu monitro wrth i'r prosiect gael ei derfynu:

Prosiectau sy'n creu refeniw

Diffiniad o 'Brosiect sy'n Creu Refeniw'

Gweithrediadau Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yw'r rhain lle caiff yr HOLL feini prawf canlynol eu bodloni:

- Rydych yn disgwyl creu refeniw net y tu hwnt i ddyddiad cwblhau eich gweithrediad (yn ystod y cyfnod datblygu).
- Nid yw'r gweithrediad yn ddarostyngedig i reolau Cymorth Gwladwriaethol.
- Mae'r costau cymwys a ragwelir yn fwy na €1 filiwn ar yr adeg pan wneir y penderfyniad ariannu.
- Bydd y cyfan o gymorth yr UE, neu ran ohono, yn cael ei ddarparu fel grant nad oes angen ei ad-dalu. Mae cymorth sydd i'w ad-dalu'n llawn wedi'i eithrio rhag rheolau Prosiectau sy'n Creu Refeniw.

Hynny yw, nid yw'r gweithrediad yn Brosiect sy'n Creu Refeniw os yw'n ddarostyngedig i reolau Cymorth Gwladwriaethol; neu os na ddisgwylir iddo greu refeniw net y tu hwnt i'r dyddiad cwblhau; neu os yw cyfanswm y costau cymwys yn llai na €1m.

Ymhellach, ni chaiff y gweithrediad ei ddsbarthu fel Brosiect sy'n Creu Refeniw os ydych yn bwriadu cael eich ad-dalu ar sail costau uned neu gyfandaliadau – yn hytrach na chostau gwirioneddol – os yw'r refeniw a ragwelir wedi'i ystyried yn llawn yng ngwerth y costau uned/cyfandaliadau y cytunwyd arnynt.

Cymorth Gwladwriaethol

Ni chaiff gweithrediadau sy'n ddarostyngedig i reolau Cymorth Gwladwriaethol eu categorio fel Prosiectau sy'n Creu Refeniw. I esbonio hyn ymhellach, mae'n golygu cymorth cyhoeddus sy'n cynnwys:

- Cymorth gwladwriaethol de minimis.
- Cymorth gwladwriaethol cydnaws i Fusnesau Bach a Chanolig, lle caiff dwyster y cymorth neu derfyn ar gyfanswm y cymorth ei gymhwysu mewn perthynas â'r cymorth gwladwriaethol.
- Cymorth gwladwriaethol cydnaws, lle mae dilysiad unigol o'r anghenion cyllido wedi'i gynnal yn unol â'r rheolau perthnasol ar gyfer cymorth gwladwriaethol.

Beth yw ystyr Refeniw?

Caiff refeniw net ei ddiffinio yn y rheoliadau fel:

Llif arian parod a gaiff ei dalu'n uniongyrchol gan y defnyddwyr am y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y prosiect, megis:

- costau a ysgwyddir yn uniongyrchol gan y defnyddwyr am ddefnyddio seilwaith;
- taliadau am wasanaethau;
- arbedion costau gweithredu (oni bai y cânt eu gwrthbwysu gan leihad cyfartal mewn cymorthdaliadau gweithredu;

namyn unrhyw gostau gweithredu a chostau disodli cyfarpar oes fer a ysgwyddir yn ystod y cyfnod cyfatebol. I grynhoi, mae hyn yn golygu **unrhyw** gostau a godir gan yr ymgeisydd (neu ei bartner(iaid) cyflawni) a'r taliadau a wneir gan ddefnyddwyr (buddiolwyr y prosiect) y gwasanaethau / nwyddau / cyfarpar ac ati. Rhaid i unrhyw daliadau a delir yn uniongyrchol i'r ymgeisydd gael eu hystyried pan wneir y cais, a dylid eu monitro i sicrhau na fydd y grant a delir yn fwy na'r bwlch rhwng y costau buddsoddi a'r refeniw net a gaiff ei greu.

Mae'r modd yr ymdrinnir â'r refeniw yn dibynnu ar natur y prosiect a phryd caiff y refeniw ei greu. Gall prosiectau cyfalaf a phrosiectau refeniw greu refeniw.

Pan fydd cyfleuster yn creu refeniw yn barod, dim ond y refeniw ychwanegol a gaiff ei greu o ganlyniad i gyflawni'r prosiect a fydd yn cael ei ystyried.

Prosiectau sy'n Creu Refeniw ar ôl eu Cwblhau – Erthygl 61

Mae Erthygl 61 Rheoliad yr UE 1303/2013 (y Rheoliad Darpariaethau Cyffredin) yn nodi'r gofynion ar gyfer prosiectau sy'n creu refeniw net yn ystod cyfnod y prosiect ac ar ôl iddynt gael eu cwblhau. Pa bryd bynnag y bo modd, dylai gwariant cymwys y gweithrediad gael ei leihau ymlaen llaw, gan gymryd i ystyriaeth y potensial sydd gan y gweithrediad i greu refeniw net dros gyfnod

penodol sy'n cwmpasu'r cyfnod gweithredu a'r cyfnod ar ôl iddo gael ei gwblhau. Caiff hwn ei alw'n gyfnod cyfeirio.

Mae Erthygl 61(3) yn nodi dau ddull arall o gyfrifo'r refeniw net posibl, naill ai trwy ddefnyddio cyfradd safonol (sydd fel arfer yn berthnasol i brosiectau seilwaith mawr) neu drwy gyfrifo'r refeniw net gostyngol gan gymryd y cyfnod cyfeirio i ystyriaeth.

Yn ôl Erthygl 61(6), pan nad oes modd pennu'r refeniw ymlaen llaw (rhaid i hyn gael ei gyfiawnhau ac ni ellir ei dderbyn ac eithrio mewn achosion lle nad oes modd pennu cyfradd y farchnad, er enghraifft), bydd y refeniw net a gaiff ei greu o fewn tair blynedd i gwblhau prosiect, neu o fewn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno dogfennau terfynu Rhaglen Gydweithredu, pa ddyddiad bynnag sydd gynharaf, yn cael ei dynnu o'r gwariant a ddatgenir i'r Comisiwn. Bydd yr amgylchiadau lle defnyddir yr opsiwn hwn yn gyfyngedig, oherwydd yn y rhan fwyaf o achosion bydd modd amcangyfrif y refeniw.

Efallai y bydd yn anodd rhagamcanu refeniw yn wrthrychol pan fydd gweithgarwch y prosiect yn arloesol neu'n ymwneud â marchnad newydd neu farchnad sy'n dod i'r amlwg, pan na fydd cyfraddau'r farchnad wedi'u sefydlu. Rhagwelir, felly, na fydd y dull hwn yn cael ei ddefnyddio ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig ac eithriadol y gellir eu cyfiawnhau.

Gweithrediadau a gaiff eu heithrio o Erthygl 61:

- pan fo gweithgareddau'r gweithrediad yn Gymorth Gwladwriaethol cydnaws neu'n gymorth de minimis 100%;
- gweithrediadau pan na fo cyfanswm y gwariant cymwys yn fwy na €1,000,000 (*gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar adeg cyhoeddi'r cytundeb ariannu*).

Archwiliadau, Gwaith Monitro ac Ymweliadau Eraill ar ôl Terfynu

Efallai y bydd eich prosiect yn destun ymweliadau archwilio a monitro unrhyw bryd tan ddiwedd cyfnod cadw'r rhaglen. Bydd WEFO/y Gydysgrifenyddiaeth yn rhoi gwybod i'ch sefydliad mewn da bryd fel y gallwch baratoi, a byddant yn disgwyl gweld yr holl dystiolaeth am weithgareddau'r prosiect a'r modd y cafodd ei reoli.



Enw'r Prosiect


Noddwr

Blaenoriaeth

Rhowch fraslun o'r hyn a gyflawnodd y prosiect yn erbyn ei nodau a'i amcanion – gan gynnwys buddion ehangach ac eglurhad o unrhyw newid mewn ffocws.

Rhowch eglurhad o unrhyw amrywiant yn erbyn y targedau.

Rhowch fanylion am unrhyw wersi a ddysgwyd, deilliannau eraill megis modelau ar gyfer arferion gorau ac unrhyw allbynnau/canlyniadau ychwanegol na ellir eu cofnodi trwy waith monitro a gwerthuso ffurfiol y prosiect.



Rhowch fanylion am unrhyw gysylltiadau eraill na chawsant eu cofnodi fel rhan o werthusiad swyddogol y prosiect.

